# GWEITHGAREDD: CYMRU – YSBRYDOLIAETH NEU GAETHIWED? – CYFLE I DDADLAU

Fe ddisgrifiodd y bardd Dylan Thomas ddinas ei febyd, Abertawe fel "... an ugly, lovely town ...crawling, sprawling ... by the side of a long and splendid curving shore. This sea-town was my world." Gadawodd y ddinas ar ôl colli ei swydd fel newyddiadurwr gyda'r South Wales Evening Post a mynd i Lundain, gan ddweud 'The land of my fathers. My fathers can keep it.'

Roedd ei berthynas gyda Chymru yn un gymysglyd. Ar yr un llaw, roedd Abertawe a bro ei deulu yng ngorllewin Cymru yn ysbrydoliaeth iddo o ran ei harddwch naturiol a'r cwmni yno. Roedd ei berthnasau'n annwyl iddo, ac roedden nhw'n sail i bortreadau cynnes yn rhai o'i ddarnau rhyddiaith mwyaf hwyliog, megis 'Nadolig Plentyn yng Nghymru'. Ar y llaw arall, roedd galwad Llundain ac Efrog Newydd yn gryf iawn, a byddai'n gadael Cymru yn fynych.

Mae'r ddeuoliaeth yma wedi bod yn rhan o waith nifer o feirdd a llenorion. Bardd a fynegodd hyn oedd T.H.Parry Williams, o Ryd-ddu, yng Ngwynedd. Ysgrifennodd soned enwog o'r enw 'Hon' lle mae'n holi ei hun a oes ots ganddo am ei wlad o gwbwl, gan nad yw hi'n ddim ond hual o'i amgylch. Ond erbyn y diwedd, nid yw mor siŵr. Darllenwch y gerdd.

**HON**

Beth yw'r ots gennyf i am Gymru? Damwain a hap
Yw fy mod yn ei libart yn byw. Nid yw hon ar fap

Yn ddim byd ond cilcyn o ddaear mewn cilfach gefn,
Ac yn dipyn o boendod i'r rhai sy'n credu mewn trefn.

A phwy sy'n trigo'n y fangre, dwedwch i mi?
Dim ond gwehilion o boblach. Peidiwch, da chwi

Â chlegar am uned a chenedl a gwlad o hyd;
Mae digon o'r rhain, heb Gymru, i'w cael yn y byd.

Rwyf wedi alaru ers talm ar glywed grwn
Y Cymry bondigrybwyll, yn cadw swn.

Mi af am dro, i osgoi eu lleferydd a'i llên,
Yn ôl i'm cynefin gynt, a'm dychymyg yn drên.

A dyma fi yno. Diolch am fod ar goll
Ymhell o gyffro geiriau'r eithafwyr oll.

Dyma'r Wyddfa a'i chriw; dyma lymder a moelni'r tir;
Dyma'r llyn a'r afon a'r clogwyn; ac, ar fy ngwir,

Dacw'r ty lle'm ganed. Ond wele, rhwng llawr a ne'
Mae lleisiau a drychiolaeth ar hyd y lle.

Rwy'n dechrau simsanu braidd; ac meddaf i chwi,
Mae rhyw ysictod fel petai'n dod drosof i;

Ac mi glywaf grafangau Cymru'n dirdynnu fy mron.
Duw a'm gwaredo, ni allaf ddianc rhag hon.

Cymerwch bleidlais ddosbarth i ddechrau: Cymru – lle ysbrydoledig, neu gaethiwus?

## GWAITH GRŴP

Cynhaliwch drafodaeth yn eich grŵp yn sgwrsio am sut le yw Cymru yn eich barn chi. Cofiwch drafod pob math o agweddau ar ei bywyd – diwylliant, byd gwaith, addysg, cymunedau, teulu, iaith ac ati.

Etholwch gadeirydd dosbarth. Yna gwahoddwch ddau siaradwr o bob grŵp, gan gadw cydbwysedd barn, i fynegi syniadau ar ran eu grŵp o blaid ac yn erbyn y ddau safbwynt. Cynhaliwch ddadl ddosbarth drefnus.

Ar y diwedd, cymerwch bleidlais o'r newydd. A oes unrhyw rai wedi newid eu barn?